Autumn 2008 - issue 21

Swansea Metropolitan University
Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# CADWYN

ALL WALES CENTRE *for* GOVERNOR TRAINING AND RESEARCH

## SCHOOL COUNCILS, PUPIL PARTICIPATION AND SCHOOL GOVERNORS

***In this article Jane Harries, Pupil Participation Project Leader in the Welsh Assembly Government, explains what pupil participation is and why it's important for governors in Wales.***

### Introduction

What is pupil participation, why is it important for my school, and what is the role of Governors in promoting and developing it? This paper will aim to answer these questions, as well as providing an overview of the national and international context, defining the Welsh Assembly Government's approach, and outlining the information and support available to schools. The paper will also raise a number of questions for Governing Bodies to consider.

### Context

The basis for pupil participation is embodied in Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC), which sets out the right of children and young people to express an opinion and to have that opinion taken into account on any matter that affects them. The Welsh Assembly Government (WAG) has formally adopted the UNCRC as a basis for all its work. The statutory requirement for all primary, secondary and special schools in Wales to have a school council can be seen as just one way in which WAG is aiming to fulfil that commitment.

Children and young people's participation in Wales is being taken forward strategically by the Participation Unit, hosted by Save the Children Cymru, together with a multi-agency Participation Consortium and the Participation Project in the Welsh Assembly Government. These bodies are working together to promote and implement National Participation Standards across Wales, and to disseminate information and training at the national and local levels.

### Definitions

So what do we mean by pupil participation? In the context of the UNCRC, participation is about children and young people having the choice to be actively consulted and involved in decision-making processes. It is recognised that this is a process rather than an event, and that it involves varying degrees of involvement – from being consulted on a predetermined issue to children and young people choosing their agenda, making their own decisions and working with adults to take these forward. The extent of children and young people's involvement will vary according to context and circumstances.

In 2004 the Participation Project in the Assembly ran a competition to produce a national definition of participation that would be easy to understand for adults and children and young people. The winning 'sound-bite' was: ***"Participation means***



***that it is my right to be involved in making decisions, planning and reviewing an action that might affect me. Having a voice, having a choice."***

Pupil participation in a school context is far wider than the school council. Schools should aim to develop holistic models so that ***all*** pupils have the opportunity to be involved in consultation and decision-making processes, and to participate in a variety of ways and at a number of levels. This can include work with the Senior Management Team and Governors to contribute to, implement and review key policies and staff appointments; involvement in teaching and learning; the opportunity to be active on the school council and other representative groups (e.g. Healthy Schools and Eco-schools) and involvement in peer support and education e.g. anti-bullying work, delivery of aspects of PSE, etc.

### Benefits of Pupil Participation

Research and case study examples suggest that developing children and young people's participation is beneficial for individuals, organisations and communities. Pupils who participate in decision-making enjoy enhanced self-esteem and motivation, gain important personal, social and organisational skills, and become familiar with group and democratic processes. At the organisational level, pupil involvement in decision-making leads to increased motivation, better relationships, more relevant and effective policies, and better learning. In the best scenarios, pupils and adults work together as partners to ensure that their school provides the best possible learning environment for all. Pupils have an important part to play in helping their school to improve in every aspect

Hydref 2008 - rhifyn 21

Swansea Metropolitan University
Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# CADWYN

CANOLFAN CYMRU AR GYFER HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR AC YMCHWIL

## CYNGHORAU YSGOL, CYFRANOGIAD DISGYBLION A LLYWODRAETHWYR YSGOLION

***Yn yr erthygl hon mae Jane Harries, Arweinydd y Prosiect Cyfranogiad Disgyblion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn egluro beth yw cyfranogiad disgyblion a pham ei fod yn bwysig i lywodraethwyr yng Nghymru.***

### Cyflwyniad

Beth yw cyfranogiad disgyblion, pam ei fod yn bwysig i f'ysgol i, a beth yw rôl Llywodraethwyr o ran ei hyrwyddo a'i ddatblygu? Nod y papur hwn fydd ateb y cwestiynau hyn, yn ogystal â rhoi golwg cyffredinol ar y cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol, diffinio dull gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodi'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i ysgolion. Bydd y papur yn codi nifer o gwestiynau i Gyrff Llywodraethu eu hystyried hefyd.

### Cyd-destun

Mae'r sail ar gyfer cyfranogiad disgyblion wedi'i gynnwys yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n amlinellu hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ac i'r farn ohono gael ei hystyried yn unrhyw fater sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi mabwysiadu'r CCUHP yn ffurfiol fel sail ar gyfer ei holl waith. Un o'r ffyrdd y mae LICC yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwnnw yw trwy'r gofyniad statudol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru gael cyngor ysgol.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael ei ddatblygu'n strategol gan yr Uned Cyfranogiad, sy'n gweithio o swyddfeydd Achub y Plant Cymru, ynghyd â Chonsortiwm Cyfranogiad amlasiantaethol a'r Prosiect Cyfranogiad yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cyrff hyn yn cydweithio i hyrwyddo a gweithredu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar draws Cymru, ac i ledaenu gwybodaeth a hyfforddiant ar y lefelau cenedlaethol a lleol.

### Diffiniadau

Felly beth ydym ni'n ei olygu gan gyfranogiad disgyblion? Yng nghyd-destun CCUHP, mae a wnelo cyfranogiad â phlant a phobl ifanc yn dewis bod yn destun ymgynghori gweithredol ac yn dewis cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Cydnabyddir mai proses ydyw yn hytrach na digwyddiad, a'i bod yn cynnwys gwahanol raddau o gyfranogiad – o gael ceisio'u barn ar fater y penderfynwyd arno ymlaen llaw i blant a phobl ifanc yn dewis eu hagenda eu hunain, yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn gweithio gydag oedolion i ddwyn y rhain yn eu blaenau. Bydd i ba raddau y caiff plant a phobl ifanc eu cynnwys yn amrywio yn ôl cyd-destun ac amgylchiadau.

Yn 2004 fe wnaeth y Prosiect Cyfranogiad yn y Cynulliad gynnal cystadleuaeth i gynhyrchu diffiniad cenedlaethol o gyfranogiad fyddai'n hawdd i oedolion, pobl ifanc a phlant ei ddeall. Dyma'r datganiad bachog a aeth â hi: ***"Mae cyfranogiad yn golygu bod gen i'r hawl i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r adolygu sy'n ymwneud â gweithredu a allai effeithio arnaf i. Bod â llais, bod â dewis."***



Mae cyfranogiad disgyblion yng nghyd-destun ysgol yn llawer ehangach na'r cyngor ysgol. Dylai ysgolion geisio datblygu modelau cyfannol fel y caiff ***pob*** disgybl y cyfle i gael ei gynnwys mewn prosesau ymgynghori a gwneud penderfyniadau, ac i gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd ac ar sawl lefel. Gall hyn gynnwys gweithio gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Llywodraethwyr i gyfrannu, gweithredu ac adolygu polisïau allweddol a phenodiadau staff; ymwneud â dysgu ac addysgu; y cyfle i fod yn weithgar ar y cyngor ysgol a grwpiau cynrychioliadol eraill (e.e. Ysgolion Iach ac Eco-ysgolion) ac ymwneud â chefnogaeth cymheiriaid ac addysg e.e. gwaith gwrth-fwlio, darparu agweddau ar ABaCH etc.

### Manteision Cyfranogiad Disgyblion

Mae ymchwil ac esiamplau o astudiaethau achos yn awgrymu fod datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc o fantais i unigolion, sefydliadau a chymunedau. Mae plant sy'n cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau'n elwa o ran bod eu hunan-barch a'u cymhelliant yn well, eu bod yn ennill sgiliau personol, cymdeithasol a threfniadol pwysig, ac yn dod yn gyfarwydd â phrosesau grŵp a rhai democrataidd. Ar lefel trefniadol, mae cynnwys disgyblion mewn gwneud penderfyniadau'n arwain at fwy o gymhelliant, gwell perthnasau, polisïau mwy perthnasol ac effeithiol a gwell dysgu. Yn y senarios gorau, mae disgyblion ac oedolion yn cydweithio fel partneriaid er mwyn sicrhau fod eu hysgol yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i bawb. Mae gan ddisgyblion rôl bwysig mewn helpu eu hysgolion i wella pob agwedd ar fywyd ysgol. Yng nghyd-destun Cymru, ystyrir cynhwysiant disgyblion fel elfen allweddol mewn datblygu a gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol.

of school life. In the Welsh context, pupil engagement is being seen as a key element in the development and implementation of the School Effectiveness Framework.

## Information and Support available to Schools

The Pupil Participation Project in the Welsh Assembly Government aims to support schools and local authorities by providing information, advice and materials. This has been done in various ways, including:

- Setting up a designated, bilingual ***School Councils Wales web-site*** (www.schoolcouncilswales.org.uk) containing information, advice and training materials;
- Piloting and developing ***training materials for pupils and staff,*** which are downloadable from the web-site;
- Running Train the Trainers courses with key staff in local authorities across Wales;
- Organising a ***School Councils Competition*** to raise awareness of the Project and ensure that more examples of good practice are available from the web-site; and
- Producing a ***School Councils DVD and pupils' training pack,*** illustrating how pupils can be actively involved in consultation and decision-making processes in their schools.

Future work will include work with Governors to roll out information and training, in particular around the active involvement of pupils in the work of the governing body and the role of Associate Pupil Governors (two pupils from Years 11 – 13 who may be nominated to represent the school council on the Governing Body).

## Governors' Role

For pupils to be effectively involved in decisions that affect them, good channels of communication need to be in place between the school council, pupils more broadly, and the Governing Body. This enables Governors to make practical and policy decisions which are informed by the needs of the school's most important stakeholders and the beneficiaries of education – the pupils themselves.

How effectively is your school taking forward pupil participation? Some questions are listed below for governors to consider:

- Do the members of your Governing body understand what is meant by "pupil participation"? What could you do to raise awareness and improve understanding?
- Do you have a designated Governor who is responsible for the school council / pupil participation?
- Does your school have a whole-school Pupil Participation policy, reflecting a wide range of opportunities for pupils to get involved at different levels?
- Is your school council effective? (e.g. If you stopped any pupil in the corridor, could they tell you three things that your school council has achieved? Is it representative?)
- What kind of decisions is your school council involved in? Are they peripheral or central to the schools' concerns? (e.g. School Development Plan? Teaching and learning?)
- What resources are allocated to the school council in terms of time, staffing and budget?
- Does the school council have a regular slot on the agenda of governors' meetings? Do pupils visit governors meetings to communicate needs and concerns, and vice-versa?
- If you are a governor in a Secondary School, has your school council nominated Associate Pupil Governors (APGs)? How have you adapted the timings, content, language and format of meetings to accommodate APGs' needs?

**Jane Harries**

Pupil Participation Project Leader,

Welsh Assembly Government

# CONVERSATIONS

***Many governors in Wales sit on both Primary and Secondary school Governing Bodies. In this term's issue of "Cadwyn", editor, Steve Gullick interviews Alison Huckle, who is a governor of both a Primary school and Secondary school in Newport.***

**S.G.** First of all, Alison, how long have you been a Primary school governor and how long a Secondary governor and which came first?

**A.H.** I've been a Primary school governor at the same school for just over 8 years. I began as a parent governor when my children started there but I am now a community governor. I've been a Secondary school governor for just over 1 year and I am a parent governor at that school.

**S.G.** Do you serve on any committees and, if so, which?

**A.H.** I am the Chair at the Primary school and therefore serve on a number of committees. All the governing body committees on which I serve carry out important functions, but I suppose most people would say the most important ones are the Finance and School Improvement Committees as they deal with what the school is all about, improvement, and how we can pay for that, finance. In the Secondary school I serve on the School Self-Evaluation Committee and the Teaching and Learning Committee, again, two committees that deal with fundamental school issues.

**S.G.** Obviously, there are a lot of things in common with the two roles, but what would you say are the biggest differences?

**A.H.** The immediate difference is the size of the organisations involved. It is easier to get to know for example,



## Gwybodaeth a Chymorth ar gael i Ysgolion

Mae'r Prosiect Cyfranogiad Disgyblion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a deunyddiau. Gwnaed hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Sefydlu gwefan Cynghorau Ysgol Cymru (www.schoolcouncilswales.org.uk) ddynodedig, ddwyieithog yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a deunyddiau hyfforddi;
- Treialu a datblygu ***deunyddiau hyfforddi ar gyfer disgyblion a staff***, y gellir eu lawrlwytho o'r wefan;
- Cynnal ***cyrsiau Hyfforddi'r Hyfforddwyr*** gyda staff allweddol mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru;
- Trefnu ***Cystadleuaeth Cynghorau*** Ysgol i godi ymwybyddiaeth o'r Prosiect a sicrhau fod mwy o enghreifftiau o arfer da ar gael o'r wefan; a
- Chynhyrchu ***DVD Cynghorau Ysgol a phecyn hyfforddi disgyblion***, yn dangos sut y gall disgyblion gymryd rhan ymarferol mewn ymgynghori a phrosesau gwneud penderfyniadau yn eu hysgolion.

Bydd y gwaith a wneir yn y dyfodol yn cynnwys gwaith gyda Llywodraethwyr i gyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant fesul cam, yn arbennig mewn cysylltiad â chynnwys disgyblion yn ymarferol yn y corff llywodraethu a rôl Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt (dau ddisgybl o Flynyddoedd 11 – 13 all gael eu henwebu i gynrychioli cyngor yr ysgol ar y corff llywodraethu).

## Rôl y Llywodraethwyr

Er mwyn i ddisgyblion gael eu cynnwys yn effeithiol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae angen cael sianeli cyfathrebu cadarn ar waith rhwng cyngor yr ysgol, disgyblion yn fwy cyffredinol, a'r Corff Llywodraethu. Mae hyn yn galluogi'r Llywodraethwyr i wneud penderfyniadau ymarferol a pholisi sydd wedi eu hysbysu gan anghenion randdeiliaid pwysicaf yr ysgol a'r rhai sy'n elwa o addysg - y disgyblion eu hunain.

Pa mor effeithiol y mae eich ysgol chi yn datblygu cyfranogiad disgyblion? Mae rhai cwestiynau wedi eu rhestru isod i lywodraethwyr eu hystyried:

- A yw aelodau eich Corff Llywodraethu chi yn deall ystyr "cyfranogiad disgyblion"? Beth allech chi ei wneud i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth?
- A oes gennych chi Lywodraethwyr dynodedig sy'n gyfrifol am y cyngor ysgol / cyfranogiad disgyblion?
- A oes gan eich ysgol chi bolisi Cyfranogiad Disgyblion ysgol gyfan, sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion ymwneud ar wahanol lefelau?
- A yw eich cyngor ysgol yn effeithiol? (e.e. Pe baech yn stopio unrhyw ddisgybl yn y coridor, a fyddai'n gallu enwi tri pheth y mae'r cyngor ysgol wedi'u cyflawni? A yw'n gynrychioliadol?)
- Pa fath o benderfyniadau y mae eich cyngor ysgol yn ymwneud â hwy? Ydyn nhw'n ymylol neu'n ganolog i bryderon yr ysgol? (e.e. Cynllun Datblygu Ysgol? Addysgu a dysgu?)
- Pa adnoddau sy'n cael eu dyrannu i'r ysgol o safbwynt amser, staff a chyllideb?
- A oes gan y cyngor ysgol slot rheolaidd ar agenda cyfarfodydd llywodraethwyr? A yw disgyblion yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr i gyfleu anghenion a phryderon, ac i'r gwrthwyneb?
- Os ydych yn llywodraethwr mewn Ysgol Uwchradd, a yw eich cyngor ysgol wedi enwebu Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt? A ydych chi wedi addasu amseroedd, cynnwys, iaith a fformat cyfarfodydd ar gyfer anghenion Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt?

**Jane Harries**

Arweinydd Prosiect Cyfranogiad Disgyblion,

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# SGYRSIAU

***Mae llawer o lywodraethwyr yng Nghymru yn eistedd ar gyrff llywodraethu ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Yn rhifyn y tymor hwn o "Cadwyn", mae'r golygydd, Steve Gullick yn holi Alison Huckle, sydd yn llywodraethwraig ysgol Gynradd ac ysgol Uwchradd yng Nghasnewydd.***

**S.G.** Yn gyntaf oll, Alison, ers pryd rydych wedi bod yn llywodraethwraig ysgol Gynradd ac yn llywodraethwraig Uwchradd, a pha un ddaeth yn gyntaf?

**A.H.** Rwyf wedi bod yn llywodraethwraig ysgol Gynradd yn yr un ysgol am ychydig dros 8 mlynedd. Dechreuais fel rhiant lywodraethwraig pan ddechreuodd fy mhlant yno ond yn awr rwyf yn llywodraethwraig gymunedol. Rwyf wedi bod yn llywodraethwraig ysgol Uwchradd am ychydig dros 1 flwyddyn ac rwyf yn rhiant lywodraethwraig yn yr ysgol honno.

**S.G.** A ydych chi'n gwasanaethu ar unrhyw bwyllgorau ac, os felly, pa rai?

**A.H.** Y fi yw'r Cadeirydd yn yr ysgol Gynradd ac felly rwy'n gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau. Mae pob pwyllgor corff llywodraethol yr wyf yn gwasanaethu arnynt yn cyflawni swyddogaethau pwysig, ond rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud mai'r rhai pwysicaf yw'r Pwyllgorau Cyllid a Gwella Ysgol gan eu bod yn delio â'r hyn yw hanfod yr ysgol, sef gwelliant, a sut gallwn dalu am hynny, sef cyllid. Yn yr ysgol Uwchradd rwyf yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Hunanwerthuso Ysgol a'r Pwyllgor Addysgu a Dysgu, ac mae'r rhain hefyd yn ddau bwyllgor sy'n trin materion ysgol sylfaenol.

**S.G.** Yn amlwg, mae llawer o bethau yn gyffredin rhwng y ddwy rôl, ond beth fyddech yn dweud yw'r gwahaniaethau mwyaf?

ALL WALES CENTRE *for* GOVERNOR
TRAINING AND RESEARCH

CADWYN

the Head teacher and senior management team of a Primary school and also fellow governors because everything is on a smaller scale. I certainly feel that my Primary school experience has been invaluable in enabling me to settle into my role as governor in the Secondary school as I have been able to relate to the way that a school is run and what is expected of a governor. This meant I felt more confident about my role as soon as I started and was then able to concentrate on establishing good working relationships with fellow governors and the leadership team at the school.

**S.G.** Finally, Alison what things do you think a Secondary school governor could learn from a Primary governor and what could a Primary governor learn from a Secondary governor?

**A.H.** A difficult question to answer because I have been very fortunate with both of the schools that I am involved with as in many ways they are very similar.

**S.G.** What do you mean?

**A.H.** Well, they both have a very clear and defined leadership structure and both governing bodies delegate work to committees, although the Secondary school has a slightly more corporate feel. Perhaps most importantly, the Head teacher and senior staff in both schools are, in my experience, very open to dealing with questions and suggestions, and they clearly enjoy encouraging governors to become fully involved and supportive of their school. Finally, I have been made very welcome in both schools. All of this means I cannot say from my own experience of both types of schools that there is any obvious difference in the roles of a Primary and Secondary school governor.

**S.G.** In that case Alison, what would be your advice to both Primary and Secondary school governors?

**A.H.** That's not a difficult question to answer. You are not simply there to make up the numbers so participate in the work of the governing body as much as possible.

# NEWS FROM GOVERNORS WALES

## Conferences

Governors Wales held a regional conference "In Search of Excellence" in North Wales on Thursday 23rd October 2008 in Llandudno. A report will be available shortly from www.governorswales.org.uk

## Award for Outstanding Clerks to Governing Bodies

This year, Governors Wales, in conjunction with the National Governors Association (NGA), is holding an award for outstanding clerks to governing bodies (all Chairs of governing bodies will have received information about the award earlier this term – closing date 5th December 2008). We are grateful to the Welsh Assembly Government for the funding to run the Wales part of the Award. The Award celebrates the contribution that clerks make to the effectiveness of governing bodies. The winner and runners up from Wales will be invited to a Wales Award Ceremony to be held in Llandrindod Wells on 5th March 2009. The winner from Wales will go forward with the winners from the English regions, and an overall winner will be chosen at a ceremony to be held in Birmingham on 21st March 2009. The winners of the Award for Outstanding Clerk to Governing Bodies will be announced in a future edition on Cadwyn. Watch this space!

## Governors Wales' Website

The Governors Wales' website www.goversnorswales.org.uk provides up to date, relevant information for school governors. Please spare a few moments (or longer!) to browse the site

– you will find news items, FAQs, a wealth of publications

– ranging from Governors Wales publications to circular guidance and statutory instruments from the Welsh Assembly Government, direct links to LEA governor training programmes and more!

We are keen to develop our website and would welcome any feedback, useful links, FAQs etc. Please email your comments to contact@governorswales.org.uk
We look forward to hearing from you.

**Future publications/events for 2008-2009 to look out for:**

| | |
|---|---|
| Fact File on: | The Critical Friend – Spring Term |
| Governor Guides on: | Effective Governing Bodies |
| Events include: | A Regional Conference in South Wales (date to be confirmed) |

All publications are available on www.governorswales.org.uk

**Llywodraethwyr Cymru Governors Wales**
**GOVERNORS HELPLINE**

**0845 6020100**

**is the helpline for governors of school in Wales.**

**Operated by Governors Wales the helpline will provide advice on a range of issues to governors in all parts of Wales.**

CANOLFAN CYMRU AR GYFER HYFFORDDI
LLYWODRAETHWYR AC YMCHWIL

CADWYN

**A.H.** Y gwahaniaeth amlycaf yw maint y sefydliadau dan sylw. Er enghraifft, mae'n haws dod i adnabod y Pennaeth Ysgol a'r tîm o uwch-reolwyr mewn ysgol Gynradd, a'ch cyd-lywodraethwyr hefyd, gan fod popeth ar raddfa lai. Yn sicr rwy'n teimlo bod fy mhrofiad ysgol Gynradd wedi bod yn werthfawr yn fy ngalluogi i gynefino â rôl llywodraethwraig yn yr ysgol Uwchradd gan fy mod wedi medru ymdeimlo â'r ffordd y rhedir ysgol a'r hyn a ddisgwylir gan lywodraethwyr. Golygai hyn fy mod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch fy rôl cyn gynted ag y dechreuais ac yna gallwn ganolbwyntio ar sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda fy nghyd-lywodraethwyr a thîm arweiniol yr ysgol.

**S.G.** I gloi, Alison, yn eich barn chi, beth allai llywodraethwr ysgol Uwchradd ei ddysgu gan lywodraethwr Cynradd a beth allai llywodraethwr Cynradd ei ddysgu gan lywodraethwr Uwchradd?

**A.H.** Mae hwn yn gwestiwn anodd gan i mi fod yn ffodus iawn gyda'r ddwy ysgol yr wyf yn ymwneud â nhw am eu bod yn debyg iawn mewn llawer o ffyrdd.

**S.G.** Beth ydych chi'n ei feddwl?

**A.H.** Wel, mae gan y ddwy ysgol strwythur arweinyddiaeth clir a diffiniedig ac mae'r ddau gorff llywodraethol yn dirprwyo gwaith i bwyllgorau, er bod awyrgylch ychydig yn fwy corfforaethol yn yr ysgol Uwchradd. Efallai mai'r peth pwysicaf yw bod y Pennaeth ysgol a'r staff hŷn yn y ddwy ysgol, yn fy mhrofiad i, yn agored iawn wrth ddelio â chwestiynau ac awgrymiadau, ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau annog y llywodraethwyr i gymryd rhan lawn yn yr ysgol a'i chefnogi. I gloi, cefais groeso mawr yn y ddwy ysgol. Golyga hyn na allaf ddweud o'm profiad personol o'r ddau fath o ysgol bod yna unrhyw wahaniaeth amlwg yn rolau llywodraethwr ysgol Cynradd ac Uwchradd.

**S.G.** Os felly, Alison, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i lywodraethwyr ysgol Cynradd ac Uwchradd?

**A.H.** Nid yw hwn yn gwestiwn anodd. Nid ydych yno i gyflenwi niferoedd yn unig, felly cyfrannwch gymaint ag y gallwch yng ngwaith y corff llywodraethol.

# NEWYDDION GAN LLYWODRAETHWYR CYMRU

## Cynadleddau

Cynhaliodd Llywodraethwyr Cymru gynhadledd ranbarthol, "Ar Drywydd Rhagoriaeth", yng Ngogledd Cymru ar ddydd Iau 23ain Hydref 2008 yn Llandudno. Bydd adroddiad ar gael cyn hir gan www.governorswales.org.uk

## Dyfarniad ar gyfer Clercod Cyrff Llywodraethol Rhagorol

Eleni, bydd Llywodraethwyr Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol y Llywodraethwyr (NGA), yn dyfarnu gwobr i glercod cyrff llywodraethol rhagorol (bydd pob Cadeirydd corff llywodraethol wedi derbyn gwybodaeth ynghylch y dyfarniad yn gynharach yn ystod y tymor hwn – y dyddiad cau yw 5ed Rhagfyr 2008). Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cynulliad Cymru am y cyllid i gynnal elfen Cymru o'r Dyfarniad. Mae'r Dyfarniad yn dathlu cyfraniad clercod i effeithiolrwydd cyrff llywodraethol. Gwahoddir yr enillydd a'r ail oreuon o Gymru i Seremoni Ddyfarnu Cymru, a gynhelir yn Llandrindod ar 5ed Mawrth 2009. Bydd yr enillydd o Gymru yn mynd ymlaen ynghyd â'r enillwyr o'r rhanbarthau yn Lloegr, ac fe ddewisir enillydd cyffredinol mewn seremoni a gynhelir yn Birmingham ar 21ain Mawrth 2009. Cyhoeddir enillwyr y Dyfarniad ar gyfer Clercod Cyrff Llywodraethol Rhagorol mewn rhifyn i ddod o 'Cadwyn'. Gwyliwch y gofod hwn!

## Gwefan Llywodraethwyr Cymru

Mae gwefan Llywodraethwyr Cymru, www.governorswales.org.uk yn darparu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i lywodraethwyr ysgol. Neilltuwch funud neu ddwy (neu hirach!) i bori'r wefan - byddwch yn dod o hyd i eitemau newyddion, Cwestiynau Cyffredin, toreth o gyhoeddiadau - yn amrywio o gyhoeddiadau Llywodraethwyr Cymru i ganllaw ar gylchlythyrau ac offerynnau statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dolennau uniongyrchol i raglenni hyfforddi llywodraethwyr AALl a mwy!

Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwefan a byddem yn croesawu unrhyw adborth, dolennau defnyddiol, Cwestiynau Cyffredin ac ati. Anfonwch eich sylwadau drwy e-bost i contact@governorswales.org.uk
Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

**Cyhoeddiadau/digwyddiadau i ddod ar gyfer 2008-2009 y dylech gadw golwg amdanynt:**

| | |
|---|---|
| Ffeil Ffeithiau ar: | Y Cyfaill Beirniadol – Tymor y Gwanwyn |
| Canllawiau i Lywodraethwyr ar: | Cyrff Llywodraethol Effeithiol |
| Bydd y digwyddiadau'n cynnwys: | Cynhadledd Ranbarthol yn Ne Cymru (y dyddiad i'w gadarnhau) |

Mae'r holl gyhoeddiadau ar gael ar www.governorswales.org.uk

**Llywodraethwyr Cymru Governors Wales**
**LLINELL GYMORTH LLYWODRAETHWYR**

**0845 6020100**

**yw'r linell gymorth newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru.**

**Mae'r linell gymorth a weithredu'r gan Llwodraethwyr Cymru yn darparu cyngor ar ystod o faterion I lywodraethwyr ar draws Cymru.**

# CADWYN

ALL WALES CENTRE *for* GOVERNOR TRAINING AND RESEARCH

## FROM THE CENTRE MANAGER



